# Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch

## Adran B: Y Safonau Graddio

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2023

Wedi'i ddiwygio: Gorffennaf 2025

# Cynnwys

**1 Cyflwyniad .... 1**

**2 Esboniad o'r termau sydd wedi eu defnyddio yn  y safonau .... 2**

**3 Manylion y Safonau Graddio .... 3**

Safon Raddio 1: Gwybodaeth a dealltwriaeth .... 3

Safon Raddio 2: Sgiliau pwnc-benodol .... 5

Safon Raddio 3: Sgiliau trosglwyddadwy .... 6

**4 Gwybodaeth bellach .... 8**

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon o Lawlyfr y Cynllun Graddio'n cyflwyno manylion y tair Safon Raddio ynghyd â rhai esiamplau o sut y gallai'r rhain gael eu dehongli yng nghyd-destun gwahanol feysydd astudio. Mae hefyd yn darparu mwy o fanylion nag Adran A ar ddefnyddio'r Safonau Graddio.

Nid yw'r graddio'n digwydd nes bydd myfyriwr wedi cyflawni pob un o ddeilliannau dysgu'r uned (mae hyn yn golygu bod y myfyriwr wedi pasio'r uned). Am mai dim ond unwaith y mae pob un o'r deilliannau dysgu'n cael eu hasesu (gwelwch Adran C: 'Cynlluniau ar gyfer asesu unedau') mae'n rhaid i'r myfyriwr, yn ôl y diffiniad, fod wedi cwblhau pob un o'r aseiniadau sy'n gysylltiedig â'r uned yn llwyddiannus cyn i'r graddio allu digwydd.

Nid yw'r tair Safon Raddio (Gwybodaeth a dealltwriaeth, Sgiliau pwnc-benodol a Sgiliau trosglwyddadwy) wedi eu mynegi yng nghyd-destun y meysydd astudio unigol, ond gallant, drwy ddewis elfennau ac is-elfennau'n ofalus a'u cyfuno'n briodol, gael eu defnyddio ar bob cwrs, gyda phob uned raddedig ac ar gyfer pob aseiniad sy'n gysylltiedig ag uned raddedig.

Mae'r elfennau a'r is-elfennau sydd i gael eu defnyddio gydag uned benodol yn cael eu dewis gyda chyfeiriad at brif agweddau perfformiad y myfyrwyr y mae angen eu hystyried pan wneir penderfyniadau graddio ar gyfer yr uned honno.

Mae pob un o'r tair Safon Raddio'n cynnwys cyfres o elfennau ac is-elfennau. Mae rhai o'r rhain yn fwy perthnasol i feysydd astudio penodol nag eraill, ac mae rhai o'r termau a ddefnyddir yn fwy perthnasol i fathau penodol o asesiadau nag eraill. Dylai cynllun asesu pob uned nodi'r is-elfennau sy'n berthnasol i'r uned honno ac, yn achos Safon Raddio 3 (Sgiliau trrosglwyddadwy), mae rheidrwydd hefyd i ddewis yr elfennau ar gyfer pob uned a'u disgrifio yn y cynllun asesu ar gyfer yr uned. Ar gyfer unedau sydd â nifer o aseiniadau, mae modd dewis is-gyfres o'r is-elfennau fel sy'n briodol i bob aseiniad unigol, ond dylid cyfeirio pob un o'r is-elfennau a ddewisir ar gyfer yr uned drwy'r aseiniadau cyfan ar gyfer yr uned honno. Yna, mae elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir (ar lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth') wedi eu cynnwys ym mriff pob aseiniad.

Mae pob un o'r tair Safon Raddio hefyd yn cynnwys datganiad sy'n disgrifio'r nodweddion sy'n nodweddiadol o berfformiad ar lefel 'teilyngdod', yn ogystal â chyfres gyfatebol o elfennau sy'n disgrifio perfformiad nodweddiadol yn yr un meysydd ar lefel 'rhagoriaeth'. Nid oes unrhyw elfennau ar gyfer 'wedi pasio' oherwydd enillir gradd 'pasio' pan fydd y myfyriwr yn cyflawni'r deilliannau dysgu ond nid yw'n cyflawni'r safon sy'n ofynnol i ennill y radd 'teilyngdod'. Mae'n rhaid i'r detholiad o is-elfennau perthnasol fod yn gyson ar draws y lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' fel ei gilydd. Ni cheir ychwanegu unrhyw is-elfennau eraill er mwyn gwahaniaethu rhwng y lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth'.

Nid yw'r Cynllun Graddio wedi'i seilio ar berthynas un-i-un dybiedig rhwng y Safonau Graddio a'r deilliannau dysgu (ond, oherwydd y ffordd y mae'r deilliannau dysgu wedi'u strwythuro, mae hi'n bosibl y gallai rhywbeth tebyg i berthynas un-i-un ddod i'r amlwg mewn rhai unedau). Mae beirniadaethau am waith y myfyriwr mewn perthynas â graddio'n berthnasol ar draws y gwaith i gyd ar gyfer yr uned, p'un a yw'r uned honno'n cael ei hasesu drwy un, neu fwy nag un aseiniad.

## 2 Esboniad o'r termau sydd wedi eu defnyddio yn y safonau

Mae'r Safonau Graddio'n gwneud defnydd o dermau cyffredinol megis 'da iawn' a 'rhagorol' fel llaw fer a ddefnyddir yn gyffredin wrth asesu i grynhoi safon y perfformiad. Defnyddir y termau hyn yn y datganiadau sy'n disgrifio perfformiad ar lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth'. Mae union ystyr y termau hyn yn amrywio ychydig bach rhwng gwahanol feysydd astudio a gwahanol aseiniadau, ond dylid ystyried rhai egwyddorion cyffredinol:

- Mae pob un o'r datganiadau 'teilyngdod' yn ymwneud â pherfformiad sy'n llawer gwell na lefel 'pasio' (h.y. mae'r deilliannau dysgu wedi eu cyflawni), er nad yw mor dda â 'rhagoriaeth'.
- Mae'r geiriau 'fel arfer' yn ymddangos yn aml iawn yn yr elfennau ar gyfer y radd 'teilyngdod', a'r geiriau 'yn gyson' ar gyfer y radd 'rhagoriaeth'. Dylai tiwtoriaid sy'n defnyddio'r datganiadau sy'n cynnwys yr iaith hon ystyried bod 'fel arfer' yn golygu 'yn y mwyafrif o achosion/sefyllfaoedd' a dylent gymryd bod 'yn gyson' yn golygu 'drwy'r amser/ymhob achos bron/mewn ffordd ddibynadwy'.
- Yn y datganiadau, defnyddir y gair 'rhagorol' nifer o weithiau i ddynodi 'rhagoriaeth'. Ni ddylid dehongli hyn i awgrymu bod angen perffeithrwydd llwyr yng ngwaith y myfyriwr cyn y gellir dyfarnu gradd 'rhagoriaeth'. Byddai hi'n fwy priodol chwilio am ddarnau o waith sy'n rhagorol yng nghyd-destun asesiad lefel 3, er eu bod yn cynnwys rhai camgymeriadau, hepgorion neu amherffeithiadau bychain.

# 3 Manylion y Safonau Graddio

## Safon Raddio 1: Gwybodaeth a dealltwriaeth

### Sut i ddefnyddio'r safon hon

<table>
<tr><td colspan="2">Dylid defnyddio pob un o'r ddwy elfen. Ar gyfer unedau o 3 chredyd, dylid dewis rhwng dwy a phedair o'r mwyaf perthnasol o restr is-elfennau elfen (b), a rhwng dwy a chwech ar gyfer unedau o 6 neu 9 credyd. Rhaid dewis yr un is-elfennau ar gyfer lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth'.</td></tr>
<tr><td>Teilyngdod<br>Mae'r myfyriwr, gwaith y myfyriwr neu berfformiad y myfyriwr:</td><td>Rhagoriaeth<br>Mae'r myfyriwr, gwaith y myfyriwr neu berfformiad y myfyriwr:</td></tr>
<tr><td>a. yn dangos, fel arfer, y gallu i gymhwyso gwybodaeth yn briodol mewn cyd-destun penodol, ac yn dangos ehangder NEU ddyfnder gwybodaeth wrth ymateb i ofynion yr uned,<br>gyda<br>b. dealltwriaeth dda iawn o'r canlynol a gallu i'w ddefnyddio'n dda iawn (dewisir o'r rhestr isod):<br>• ffeithiau<br>• cysyniadau<br>• damcaniaethau<br>• modelau<br>• dulliau<br>• safbwyntiau<br>• syniadau<br>• egwyddorion<br>• arferion<br>• gweithdrefnau</td><td>a. yn dangos, yn gyson, y gallu i gymhwyso gwybodaeth yn briodol mewn cyd-destun penodol, ac yn dangos ehangder NEU ddyfnder gwybodaeth wrth ymateb i ofynion yr uned,<br>gyda<br>b. dealltwriaeth ragorol o'r canlynol a gallu rhagorol i'w ddefnyddio (dewisir o'r rhestr isod):<br>• ffeithiau<br>• cysyniadau<br>• damcaniaethau<br>• modelau<br>• dulliau<br>• safbwyntiau<br>• syniadau<br>• egwyddorion<br>• arferion<br>• gweithdrefnau</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nid oes unrhyw Safon Raddio ar gyfer gradd 'pasio'. Mae'r myfyrwyr yn cyflawni gradd 'pasio' drwy fodloni'r gofynion o ran deilliannau dysgu'r uned.</td></tr>
</table>

### Dehongli'r safon

Mae'r safon hon yn rhoi cyfle i'r aseswyr farnu i ba raddau y mae'r myfyriwr wedi dysgu a defnyddio'r wybodaeth gysylltiedig a phenodol i'r pwnc sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu ar gyfer uned benodol.

Dylid diffinio a defnyddio'r sail gwybodaeth mewn perthynas â ffocws a maes astudio penodol yr uned. Mae hyn yn cydnabod bod gwahanol fathau o wybodaeth mewn gwahanol feysydd astudio (gwelwch yr esiamplau isod).

Dyma rai esiamplau mewn gwahanol feysydd astudio: Bioleg - mecanweithiau homeostatig; Astudiaethau Busnes - damcaniaethau ac egwyddorion cyfrifyddu; Seicoleg - gwahanol ddamcaniaethau/safbwyntiau; Gofal Iechyd - nodweddion arfer proffesiynol ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth; Mathemateg - y cysyniadau sylfaenol, er enghraifft, algebra, geometreg, cysyniadau a phrofion ystadegol; Hanes - gwahanol fathau o wrthdaro, cysyniad 'lleisiau cudd'

gydag esiamplau, dulliau o strwythuro dadleuon hanesyddol; Llenyddiaeth Saesneg - gwahanol fathau o lenyddiaeth a therminoleg ieithyddol; y Celfyddydau Creadigol - y gwahanol fathau, yr elfennau sylfaenol, yr offer a ddefnyddir, a'r meini prawf a ddefnyddir i farnu creadigedd, celf dactegol ac arbrofi, archwilio defnyddiau, celf a thechnoleg a'r we, hanes celf, arferion stiwdio.

Dylid seilio asesiad crynodol o'r sail gwybodaeth a'i gymhwysiad ar ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu'r uned yn unig.

## Safon Raddio 2: Sgiliau pwnc-benodol

### Sut i ddefnyddio'r safon hon

<table>
<tr><td colspan="2">Ar gyfer pob uned, beth bynnag fo ei maint, dylid dewis rhwng dwy a phedair o'r mwyaf perthnasol o restr is-elfennau elfen (b). Rhaid dewis yr un is-elfennau ar gyfer lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth'.</td></tr>
<tr><td>Teilyngdod<br>Mae'r myfyriwr, gwaith y myfyriwr neu berfformiad y myfyriwr:</td><td>Rhagoriaeth<br>Mae'r myfyriwr, gwaith y myfyriwr neu berfformiad y myfyriwr:</td></tr>
<tr><td>a. yn dangos, fel arfer, y gallu i ddewis a defnyddio'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer yr uned,<br>gyda<br>b. safon dda iawn o'r canlynol (dewisir o'r rhestr isod):<br>• cywirdeb<br>• manylrwydd<br>• effeithiolrwydd<br>• creadigedd<br>• arloesi<br>• rhesymu<br>• mewnwelediad<br>• ffocws<br>• dehongli</td><td>a. yn dangos, yn gyson, y gallu i ddewis a defnyddio'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer yr uned,<br>gyda<br>b. safon ragorol o'r canlynol (dewisir o'r rhestr isod):<br>• cywirdeb<br>• manylrwydd<br>• effeithiolrwydd<br>• creadigedd<br>• arloesi<br>• rhesymu<br>• mewnwelediad<br>• ffocws<br>• dehongli</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nid oes unrhyw Safon Raddio ar gyfer gradd 'pasio'. Mae'r myfyrwyr yn cyflawni gradd 'pasio' drwy fodloni'r gofynion o ran deilliannau dysgu'r uned.</td></tr>
</table>

### Dehongli'r safon

- Amcan elfen (a) yw bod yr holl feini prawf asesu'n achosi problem/her o wahanol lefelau o gymhlethdod, sy'n gofyn bod y myfyriwr yn defnyddio gwahanol sgiliau wrth ymateb iddyn nhw. Felly, bydd angen i'r aseswr farnu pa mor dda y mae'r myfyriwr wedi dadansoddi ac ymateb i ofynion/orchmynion y deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu yn y dystiolaeth a asesir. Gallai sgiliau fod yn ddeallusol, technegol neu ymarferol.
- Mae sgiliau deallusol pwnc-benodol yn cynnwys: meddwl beirniadol, defnyddio gwybodaeth, dadansoddi, cyfuno syniadau, gwerthuso, rhesymu, dadlau a datrys problemau yn unol â gofynion berfau gorchmynnol y meini prawf asesu.
- Enghraifft bosibl o sgil ddeallusol mewn Hanes yw dadansoddi achos a chanlyniadau gwrthdaro. Mewn Llenyddiaeth Saesneg, enghraifft bosibl yw dadansoddi testun. Ar gyfer prosiect annibynnol, gallai hyn gynnwys llunio rhagdybiaeth neu gwestiwn ymchwil.
- Enghraifft bosibl o sgil dechnegol mewn Cyfrifiadureg yw llunio rhaglen gyfrifiadurol. Mewn gwaith ymchwil, enghraifft bosibl yw defnyddio offer dadansoddi data (e.e. Microsoft Excel). Mewn Addysg, enghraifft bosibl yw llunio adnoddau dysgu ar-lein. Mewn Cyfrifeg, enghraifft bosibl yw defnyddio meddalwedd cyfrifyddu. Mewn Celf a Dylunio, enghraifft bosibl yw defnyddio amrywiol bensiliau i ddangos llinell, arlliw a gwead.
- Enghraifft bosibl o sgil ymarferol mewn gwyddoniaeth yw gwneud arbrawf.
- Dylid seilio asesiad crynodol o'r sgiliau gofynnol ar ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu'r uned yn unig.

## Safon Raddio 3: Sgiliau trosglwyddadwy

### Sut i ddefnyddio'r safon hon

<table>
<tr><td colspan="2">Mae tair elfen (a, b, c) ar gyfer y Safon Raddio hon. Rhaid dewis o leiaf dwy elfen ar gyfer pob uned raddedig (beth bynnag fo maint yr uned).<br>Rhaid defnyddio pob un o'r tair elfen o leiaf unwaith ar gyfer asesu pob rhan o'r Diploma.<br>Mae cyfres o is-elfennau i elfen (a) ac elfen (b). Dylid dewis rhwng dwy a phedair o'r mwyaf perthnasol o restrau is-elfennau elfen (a) ac elfen (b).</td></tr>
<tr><td>Teilyngdod<br>Mae'r myfyriwr, gwaith y myfyriwr neu berfformiad y myfyriwr:</td><td>Rhagoriaeth<br>Mae'r myfyriwr, gwaith y myfyriwr neu berfformiad y myfyriwr:</td></tr>
<tr><td>a. yn dangos sgiliau cyfathrebu a/neu gyflwyno da iawn, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu gallu i ddefnyddio a/neu ddewis y canlynol (dewisir o'r rhestr isod):<br>• fformat<br>• strwythur<br>• gramadeg<br>• cystrawen<br>• sillafu ac atalnodi<br>• delweddau<br>• arteffactau<br>• meddalwedd digidol<br>• rhif<br>• metrigau<br>• 'para-iaith'<br><br>b. yn dangos ymreolaeth ac/neu annibyniaeth, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu gallu i wneud y canlynol yn dda iawn (dewisir o'r rhestr isod):<br>• cynllunio, trefnu a chwblhau gwaith<br>• ymateb mewn ffordd briodol i oruchwyliaeth<br>• gwneud gwaith ymchwil yn annibynnol<br>• rheoli amser<br>• cydweithio ag eraill<br>• cymryd y cyfrifoldeb am eu cyfraniadau eu hunain<br>• myfyrio ar eu perfformiad eu hunain<br><br>c. yn cadw at y confensiynau academaidd a/neu broffesiynol fel arfer wrth ddefnyddio iaith a/neu fformat technegol/ arbenigol yn eu hymateb i'r cyfarwyddiadau sydd wedi eu nodi ym mriff yr aseiniad (gwelwch yr esiamplau isod).</td><td>a. yn dangos sgiliau rhagorol mewn cyfathrebu a/neu gyflwyno, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu gallu i ddefnyddio a/neu ddewis y canlynol (dewisir o'r rhestr isod):<br>• fformat<br>• strwythur<br>• gramadeg<br>• cystrawen<br>• sillafu ac atalnodi<br>• delweddau<br>• arteffactau<br>• meddalwedd digidol<br>• rhif<br>• metrigau<br>• 'para-iaith'<br><br>b. yn dangos ymreolaeth ac/neu annibyniaeth, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu gallu rhagorol i wneud y canlynol (dewisir o'r rhestr isod):<br>• cynllunio, trefnu a chwblhau gwaith<br>• ymateb mewn ffordd briodol i oruchwyliaeth<br>• gwneud gwaith ymchwil yn annibynnol<br>• rheoli amser<br>• cydweithio ag eraill<br>• cymryd y cyfrifoldeb am eu cyfraniadau eu hunain<br>• myfyrio ar eu perfformiad eu hunain<br><br>c. yn cadw at y confensiynau academaidd a/neu broffesiynol yn gyson wrth ddefnyddio iaith a/neu fformat technegol/ arbenigol yn eu hymateb i'r cyfarwyddiadau sydd wedi eu nodi ym mriff yr aseiniad (gwelwch yr esiamplau isod).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nid oes unrhyw Safon Raddio ar gyfer gradd 'pasio'. Mae'r myfyrwyr yn cyflawni gradd 'pasio' drwy fodloni'r gofynion o ran deilliannau dysgu'r uned.</td></tr>
</table>

## Dehongli'r safon

Mae **elfen (a)** yn sgil drosglwyddadwy hanfodol mewn arferion proffesiynol a/neu arferion prifysgol. Mae'n rhoi cyfle i'r aseswr farnu pa mor dda y mae'r myfyriwr wedi cyfathrebu a/neu gyflwyno eu hymateb i ofynion yr asesiad - p'un a ydyw'n draethawd, adroddiad, arholiad, portffolio neu ddull asesu arall. Mewn asesiad lle gofynnir i'r myfyriwr gyflwyno gwaith, mae'r term 'para-iaith' yn cyfeirio at gyfathrebu geiriol a di-eiriau.

Mae **elfen (b)** wedi ei seilio ar y safbwynt bod ymreolaeth ac annibyniaeth hefyd yn rhagofynion hanfodol ar gyfer arferion proffesiynol a/neu arferion prifysgol. Gellir dangos tystiolaeth o'r rhain drwy asesu perfformiad yn erbyn yr is-elfennau a ddewisir a fydd yn amrywio yn dibynnu ar natur a chwmpas y dasg neu'r tasgau asesu. Ar gyfer rhai aseiniadau, gallai hyn gynnwys barnu gallu'r myfyriwr i weithio gydag eraill, yn ogystal â chymryd y cyfrifoldeb am eu cyfraniadau eu hunain, er enghraifft ar gyfer cyflwyniadau grŵp.

Mae **elfen (c)** yn rhoi cyfle i'r aseswr farnu i ba raddau y mae'r myfyriwr wedi dilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi eu nodi ym mriff yr aseiniad, er enghraifft, efallai y bydd y dystiolaeth yn dangos bod gan y myfyriwr wybodaeth a sgiliau o safon dda iawn neu ragorol ond nad yw wedi dilyn y briff. Os yw arholiad mewn mathemateg wedi gofyn i'r myfyrwyr ddangos eu cyfrifiadau ond y maent wedi methu gwneud hynny, nid ydynt wedi dilyn y cyfarwyddiadau er bod eu cyfrifiadau'n gywir. Mewn confensiynau academaidd, os bydd gofyn i fyfyriwr ysgrifennu erthygl i'w chyhoeddi, byddai disgwyl i bob un o'r ffynonellau cyhoeddedig a ddefnyddir dderbyn y gydnabyddiaeth gywir. Mewn adroddiad busnes, byddai disgwyl cael crynodeb gweithredol, tabl cynnwys, cyflwyniad, corff a chasgliadau/argymhellion. Mewn arddangosfa gelf, byddai'r aseswyr yn disgwyl gweld thema flaenllaw sy'n clymu'r darnau ynghyd ac yn gwneud iddyn nhw deimlo'n rhan o gorff mwy. Mewn pynciau megis Gofal Iechyd, Meddygaeth, Peirianneg ac Addysg, byddai cadw at gonfensiynau proffesiynol yn dangos bod y myfyriwr yn ymwybodol o'r disgwyliadau yn y proffesiwn hwnnw a'i fod/bod yn eu deall.

Dylid seilio asesiad crynodol o'r sgiliau trosglwyddadwy hyn ar ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu'r uned yn unig, ynghyd â gofynion y briff.

# 4 Gwybodaeth bellach

Mae manylion llawn y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU*, yn ogystal â'r holl ganllawiau cysylltiedig i'r Asiantaethau DMiAU, y darparwyr/canolfannau sy'n cynnig cyrsiau, a'u staff sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr addysg uwch, ar gael ar wefan QAA.

<table>
<tr><td colspan="3"><h2>Rheoli fersiynau</h2></td></tr>
<tr><td colspan="3">Teitl y ddogfen<br><br>Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch<br>- Dogfen Reoleiddiol: Y gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU</td></tr>
<tr><td colspan="3">Disgrifiad o'r ddogfen<br><br>Y ddogfen hon yw Adran B y Cynllun Graddio ar gyfer Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch sy'n rhoi manylion y tair Safon Raddio. Mae hon yn ddogfen reoleiddiol sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Perchennog y ddogfen</td><td>Rheolwr y Diploma Mynediad i AU</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymeradwywyd gan Fwrdd QAA</td><td>Dyddiad: Mawrth 2025</td></tr>
<tr><td colspan="2">Lleoliad cyhoeddi</td><td>https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/cynllun-graddio-mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cysylltiadau â dogfennau rheoleiddiol eraill<br><br>y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch<br><br>yr Amodau Mynediad i AU<br><br>y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU - Adrannau A, C i E<br><br>Manyleb y Diploma Mynediad i AU<br><br>I weld manylion, ewch i: www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y dyddiad adolygu nesaf</td><td>Dyddiad: Gorfennaf 2028</td></tr>
<tr><td>Fersiwn</td><td>Y dyddiad cyhoeddi</td><td>Y wybodaeth wedi ei diweddaru</td></tr>
<tr><td>1.0</td><td>Gorffennaf 2024</td><td>Yr argraffiad cyhoeddedig cyntaf</td></tr>
<tr><td>2.0</td><td>Mawrth 2025</td><td>Ychwanegwyd<br><br>"Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorrennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch."<br><br>yn lle<br><br>"Mae'r adran hon o'r Cynllun Graddio'n cymryd lle'r adran gyfatebol yng Nghynllun Graddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Medi 2020). Mae'n berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen. Hefyd, diweddarwyd Manyleb y Diploma Mynediad i AU i fod yn berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen."<br><br>Diweddarwyd yr adran am reoli fersiynau</td></tr>
</table>

Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch.

Mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny oedd wedi eu cofrestru cyn 1 Awst 2024, gwelwch *Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch* (Ionawr 2020) a'r *Cynllun Graddio* (Medi 2020) sydd ar gael ar www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au.

Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au